

DATGANIAD I'R WASG

Mae adroddiad gofal mamolaeth COVID-19 cenedlaethol y corff gwarchod iechyd yn datgelu gwerthfawrogiad cyffredinol o weithwyr GIG, ond mae'n rhybuddio bod rhai cleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu siomi

Mae adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd heddiw gan Gyngorau Iechyd Cymuned (CICau) yn rhannu profiadau pobl am ofal mamolaeth yng Nghymru yn ystod y pandemig COVID-19, yn dangos gwerthfawrogiad cyffredinol o weithwyr GIG, tra'n datgelu bod rhagor yn parhau i fod angen ei wneud i wella mynediad ac ansawdd gofal i bawb.

CICau ydy corff gwarchod annibynnol y gwasanaethau GIG yng Nghymru. Maen nhw'n annog ac yn galluogi aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan gweithredol yn y penderfyniadau sydd yn effeithio ar ddyluniad, datblygiad a darpariaeth gofal iechyd i'w teuluoedd a chymunedau lleol.

Drwy gydol y pandemig, mae CICau wedi bod yn ymgysylltu gyda phobl ledled Cymru i glywed eu barn a'u profiadau fel rhan o arolwg cenedlaethol o ofal GIG. Mae adroddiad heddiw yn amlygu sut mae'r pandemig coronafeirws wedi effeithio ar brofiadau pobl o ofal mamolaeth.

Dywedodd John Pearce, Cadeirydd Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yn Nghymru:

"Mae ein hadroddiad yn amlygu faint yn union y mae pobl yn gwerthfawrogi staff gofalgwr y GIG sydd wedi gwneud cymaint o wahaniaeth iddyn nhw wrth iddyn nhw fynd drwy brofiad newid bywyd mewn amgylchiadau anodd, weithiau heb eu hanwyliaid yn gwmni iddyn nhw.

Rydym yn ddiolchgar i'r holl staff GIG hynny sydd yn gyson wedi rhoi eu cleifion yn gyntaf yn ystod cyfnod heriol iawn i bawb.

Rydym hefyd wedi clywed nad oedd hyn yn brofiad i bawb, a bod rhai menywod yn teimlo eu bod wedi cael eu siomi. Mae angen i'r GIG wneud popeth posibl fel bod menywod a'u teuluoedd yn teimlo eu bod yn derbyn

gofal a chefnogaeth ac yn derbyn gwybodaeth yn y modd cywir ar gyfnod lle nad yw efallai yn bosibl iddyn nhw dderbyn y math o ofal mamolaeth y byddai pawb eisiau iddyn nhw ei gael. Mae cyfathrebu da a mynediad i wybodaeth glir a'r wybodaeth ddiweddaraf yn allweddol i hyn.

Wrth i'r pandemig coronafeirws barhau i effeithio ar ein bywydau, mae angen i'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau yn y GIG feddwl am, a chydbwysu effaith cyfyngiadau COVID-19 gyda iechyd meddwl a llesiant menywod a'u teuluoedd sydd yn mynd drwy'r profiad newid bywyd yma mewn amgylchiadau mor anodd".

Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yma yn darganfod bod pobl ar draws y wlad wedi bod yn hynod o gefnogol i staff GIG.

Clywodd CICau yn gyson cymaint y mae menywod a'u teuluoedd yn gwerthfawrogi ymrwymiad a phenderfyniad gweithwyr gofal iechyd i ddarparu'r gofal a'r driniaeth gorau posibl yn ystod y sefyllfa ddigynsail yma.

Ond, tra bod pobl wedi dweud eu bod yn deall yr angen i addasu gwasanaethau, roedd rhai yn parhau i deimlo eu bod wedi cael eu siomi.

Datgelodd rhai rhieni newydd fod effaith y pandemig yn parhau i effeithio ar eu gofal a'u chefnogaeth barhaus ar ôl genedigaeth.

Clywodd CICau hefyd sut roedd rhai rhieni newydd yn methu datblygu'r perthnasoedd pwysig, cefnogol y gallent fod wedi eu datblygu gyda rhieni newydd eraill yn eu cymuned. Roedd CICau yn bryderus o glywed am sut y gall hyn esgor ar gynnydd yn y teimlad o fod yn hyglwyf ac yn y pendraw sut y gall effeithio ar iechyd meddwl a llesiant pobl.

Tra bod adroddiad CICau yn datgan bod beichiogrwydd a genedigaeth yn y rhan fwyaf o achosion yn arwain at fam a babi iach, pan fo pethau'n mynd o chwith gall fod yn ddinistriol ac yn hir ei barhad. I unrhyw deulu sydd yn delio gyda hyn yn ystod y pandemig, roedd y peryglon o beidio â chael y gefnogaeth gywir ar yr adeg cywir yn uwch.

Mae'r adroddiad yn datgan bod y CICau eisoes wedi gweld sut mae rhai o'r pethau roedd pobl yn cael trafferthion gyda nhw wrth i'r gwasanaethau mamolaeth ymateb ar y dechrau i'r pandemig coronafeirws yn cael eu trafod.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu'r angen i sicrhau bod pawb yn cael y gefnogaeth a'r wybodaeth maen nhw eu hangen pan maen nhw ei angen; bod rhagor yn cael ei wneud i gadw mewn cysylltiad yn weithredol ac i 'ymgysylltu' i roi'r gefnogaeth mae menywod a'u teuluoedd ei angen cyn ar ar ôl rhoi genedigaeth, a sicrhau bod staff GIG yn deall ac yn ymateb i anghenion unigol menywod a'u teuluoedd, yn cynnwys y rhai all fod wedi cael profiadau anodd yn y gorffennol.

DIWEDD

Ymholiadau'r cyfryngau i Matthew Parr @ Working Word ar 07506 125 016 neu e-bost matthew.parr@workingword.co.uk

NODYN I OLYGYDDION

Mae Bwrdd CICau yn cynrychioli llais ar y cyd y 7 CIC yng Nghymru.

CICau ydy corff gwarchod annibynnol y gwasanaethau GIG yng Nghymru. Maen nhw'n annog ac yn galluogi aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan gweithredol yn y penderfyniadau sydd yn effeithio ar ddyluniad, datblygiad a darpariaeth gofal iechyd i'w teuluoedd a chymunedau lleol.

Gan weithredu ar ran eu poblogaeth leol, mae CICau yn monitro perfformiad gwasanaethau GIG yn eu hardal yn rheolaidd, yn ogystal ag ymateb i ddatblygiadau a newidiadau mewn gwasanaethau.

Mae CICau yn cynnal deialog barhaus gyda'r cyhoedd drwy amrediad eang o rwydweithiau cymunedol, cysylltiadau uniongyrchol gyda chleifion, teuluoedd a gofalwyr drwy ymholiadau, Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion, gweithgareddau ymweld a thrwy arolygon cyhoeddus ac arolygon cleifion.

Mae pob un o'r 7 CIC yng Nghymru yn cynrychioli 'llais y claf' yn eu hardaloedd daearyddol neilltuol.